Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-861
Ein cyf/Our ref KW/02720/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

12 Rhagfyr 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Rhagfyr mewn perthynas â deiseb P-05-861 'Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd'.

Mae'n hanfodol ein bod yn gwrando ar ein pobl ifanc, ac yn ystyried eu barn a'u safbwyntiau, er mwyn deall beth sy'n bwysig iddyn nhw a sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o bleidleiswyr yr hyn sydd ei angen arnynt i gymryd rhan lawn mewn democratiaeth.

Anogir ysgolion eisoes i ddarparu addysg eang, gan gynnwys ymwybyddiaeth wleidyddol ac mae cyfleoedd i ddysgwyr archwilio gwleidyddiaeth yn y cwricwlwm cyfredol drwy Fagloriaeth Cymru ac addysg bersonol a chymdeithasol. Mae thema 'Dinasyddiaeth Weithgar' addysg bersonol a chymdeithasol yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth am wleidyddiaeth, cyflogaeth a'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Maent hefyd yn datblygu dealltwriaeth ymarferol o'u hawliau ac o'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau nhw eu hunain.

Yn ddiweddar, siaradais am y pwnc hwn gyda phobl ifanc yn y digwyddiad 'Clywed Ein Lleisiau' a drefnwyd gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol. Roeddwn yn ddiolchgar am yr adroddiad a gefais gan bobl ifanc yng Nghymru ac rwy'n ystyried ei argymhellion ar hyn o bryd er mwyn ymateb yn ffurfiol yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Fel y mae'r deisebydd yn sôn, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Cwricwlwm Newydd i Gymru, gan weithredu'n unol ag argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus*, sef adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm a Threfniadau Asesu gan yr Athro Graham Donaldson. Wrth galon y cwricwlwm newydd mae pedwar diben. Un diben yw cefnogi pobl ifanc i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, dinasyddion sy'n deall eu hawliau dynol a'u hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd, ac yn gallu eu harfer yn hyderus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r pedwar diben yn ganolog i bob penderfyniad mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd – ac fe'u hadlewyrchir yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n ffurfio Meysydd Dysgu a Phrofiad y Cwrciwcwm.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnwys dysgu mewn perthynas â dinasyddiaeth a gwleidyddiaeth. Mae Arloeswyr yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiadau sydd eu hangen i gymryd rhan lawn yn eu cymunedau lleol ac yn ein prosesau democrataidd. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad yn cynnwys y gefnogaeth ganlynol i ddysgwyr:

- Llythrennedd yn y Cyfyngau
- Meddwl Beirniadol
- Deall y gwahanol strwythurau a systemau llywodraethu yng Nghymru
- Deall cysyniadau gwleidyddol
- Deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau democrataidd (gan gynnwys yr hawl i bleidleisio, wrth gwrs)

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* wedi gosod her inni: ailfeddwl am ei hymagwedd tuag at y Cwricwlwm. Mae'n ei gwneud yn hollol amlwg bod llawer o ragnodi a manylder ar lefel genedlaethol yn llesteirio "*[y] llif a'r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc*". Mae angen inni felly sicrhau nad yw'r Cwricwlwm Newydd yn rhoi rhestr fanwl o gynnwys, un a fyddai'n datblygu i fod yn gymhleth ac yn orlawn. Rhaid i'r cwricwlwm roi'r hyblygrwydd i ymarferwyr ddewis y cynnwys penodol – cynnwys sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr yn eu cyd-destun penodol nhw.

Bydd ein Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau Drafft, sydd i gael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn y flwyddyn newydd, yn cynnwys darpariaeth i ymestyn yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd wedi nodi ei fwriad i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn dod â'r oedran pleidleisio mewn etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol i lawr i 16.

Ar 21 Tachwedd, bu imi gwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywydd y Cynulliad i drafod sut i gefnogi'r ddeddfwriaeth, ac argymhelliad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol, sef: *sicrhau bod pobl ifanc yn clywed barn wleidyddol ar draws y sbectrwm, a'u bod yn cael y gallu i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i arfer eu hawl ddemocrataidd.*

Fe wnaf ddatganiad ffurfiol am sut y byddwn yn bwrw ati gyda'r gwaith hwn yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education